Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales

# Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach:

## Templed Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)

Mehefin 2021



Mae tair rhan i'r adnodd hwn:

- Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach
- Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Templed Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Amgylcheddau Pwysau Iach (Y ddogfen hon)
- Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach: Enghreifftiau o Astudiaethau Achos

Dyfyniad a awgrymir: Johnson, T a Green, L, (2021). Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd.

## Cydnabyddiaeth:

Addaswyd y Templed Canllaw Cynllunio Atodol ac Adran 2 (tudalennau 15-24) 'Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach' o '*Using the planning system to promote healthy-weight environments*' (2020) gan Public Health England [1]

Hoffai'r awduron fynegi eu diolchgarwch i Lucy O'Loughlin, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, am ei harbenigedd a'i mewnbwn.

Hoffem ddiolch hefyd i gydweithwyr a gweithwyr proffesiynol a fu o gymorth mawr gyda'u harbenigedd, yn ogystal â'r adborth a ddarparwyr gan y sawl a ddaeth i'r gweithdai.

- Sumina Azam, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bob Baines, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Alison Black, Llywodraeth Cymru
- Huw Brunt, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bronia Bendall, Cyfoeth Naturiol Cymru
- Michael Chang, Public Health England
- Gemma Christian, Llywodraeth Cymru
- Jennifer Davies, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sarah Grimley, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Ed Huckle, Public Health England
- Kristian James, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Delyth Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sue Mably, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Richard Matthams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Martin McVay, Llywodraeth Cymru
- Bethan Morris, Cyngor Sir Ddinbych
- Andy Netherton, Public Health England
- Lee Parry-Williams, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Beth Preece, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Chris Smith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Danielle Smith, Cadwyn Gyflenwi'r GIG
- Gareth Stacey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Vicky Weale, Cyngor Sir Y Fflint
- Stuart Williams, Cyngor Sir Caerdydd
- Cheryl Williams, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Am y templed hwn: **Gwybodaeth gefndir ar gyfer gweithwyr systemau iechyd**

Diben y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) neu dempled polisi cynllunio hwn a all gael ei addasu yw darparu glasbrint i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddatblygu eu CCA lleol eu hunain sydd wedi'u dylunio i gefnogi pobl leol i fwyafu eu llesiant, gan gynnwys cyflawni pwysau iach.

Nid yw'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ac nid yw'n destun adolygiad annibynnol ond mae'n rhaid iddi gydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Ni all y CCA gysylltu â'r polisi cenedlaethol yn unig; mae'n rhaid hefyd iddo gysylltu â 'bachyn' yn y CDLl sy'n cysylltu â'r polisi cenedlaethol. Mae'n gallu:

- Darparu canllaw i ymhelaethu ar bolisi seiliedig ar bynciau i helpu wrth weithredu'r CDLl;
- Cynnwys manylion a chanllawiau/trothwyon rhifiadol lle y byddant o bosib yn newid, er mwyn atal y CDLl rhag heneiddio'n rhy gyflym;
- Darparu canllawiau manwl ychwanegol ar y math o ddatblygiad a ddisgwylir mewn ardal a ddyrennir i'w datblygu yn y CDLl. Gallai hwn fod yn friff datblygu neu'n brif gynllun manylach.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r templed hwn fel man cychwyn i greu CCA ar amgylcheddau pwysau iach. Ar ôl ei addasu, bydd y CCA yn adlewyrchu cyfansoddiad y CDLl, yr amgylchedd manwerthu ac yn cyflwyno sylfaen dystiolaeth leol ar iechyd a llesiant. Gall y dull a fabwysiedir gan y CCA hwn gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Mae'r templed hwn wedi'i addasu o '*Using the planning system to promote healthy-weight environments*' (2020) gan Public Health England [1]

## Perthynas â Chynlluniau Datblygu Lleol:

Pan fo'n briodol ychwanegu neu amnewid gyda chynnwys neu dystiolaeth leol, neu ei addasu i bolisi lleol, fe'i nodir gan [LLEOL]. Mae'r adrannau hyn yn cynnwys enghreifftiau o sut y gallai'r CCA edrych os yw'r polisi hwn wedi'i gynnwys yn y CDLl. Os nad yw'n berthnasol i'r CDLl, gellir ei ddiwygio neu ei ddileu. Gellir darparu cynnwys lleol ar ffurf testun ychwanegol neu ar ffurf graffig fel mapiau neu graffiau. Dylai'r testun terfynol o fewn y CCA gynnwys cyfeiriadau a dolenni wedi'u diweddaru â chyhoeddiadau allweddol, polisïau cenedlaethol a lleol, y mae llawer ohonynt i'w gweld yn y ddogfen adnoddau (Gweler Adrannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7).

## Pennod 1 – Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir

1. Rôl y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Pwysau Iach

    1.1. Gellir cynhyrchu CCA i ddarparu canllawiau manwl ar bolisïau cynllunio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl). Bydd y manylion ychwanegol hyn yn arwain ymgeiswyr a byddant yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gan helpu i ddarparu system rheoli datblygu dryloyw, gyson ac effeithlon. Bydd cydymffurfio â dogfennau CCA yn hyrwyddo ceisiadau cynllunio sydd â'r cyfle gorau o gael caniatâd cynllunio.

    1.2. Dim ond pan fo angen y dylid paratoi CCA, dylent fod yn berthnasol i CDLl a dylid eu hysgrifennu yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10 (PCC)[1]. Dylent helpu ymgeiswyr i wneud ceisiadau cynllunio llwyddiannus ac ni ddylent ychwanegu'n ddiangen at y beichiau gweinyddol ac ariannol ar ddatblygiadau.

2. Amcanion allweddol y CCA Pwysau Iach

    2.1. Amcanion allweddol y CCA hwn yw:

    - cyfeirio cyngor cyn-ymgeisio am unrhyw faterion posib sy'n gysylltiedig ag iechyd a bod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau, yn ogystal â darparu gwybodaeth ac arweiniad y gellir eu defnyddio i gefnogi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd [LLEOL os oes gan y CDLl bolisi o'r fath];
    - hyrwyddo cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach ac annog opsiynau iachach sy'n ymwneud â bwyd, gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol;
    - gwella iechyd pobl leol a lleihau'r galw ar y GIG, gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau ALl;
    - darparu adnodd sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda gwybodaeth ac arweiniad ategol;
    - hysbysu cymunedau a darparu canllawiau i helpu wrth baratoi Cynlluniau Cymdogaeth; a
    - chyfeirio'r broses o ddyrannu a defnyddio cyfraniadau gan ddatblygwyr drwy gytundebau Adran 106 neu'r ardoll seilwaith Cymunedol [LLEOL os mabwysiedir yr ardoll seilwaith cymunedol].

[1] Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018), Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

## 3. Perthynas â'r CDLl a pholisi cynllunio cenedlaethol

3.1. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn disgrifio cyfrifoldebau awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) i hyrwyddo cymunedau iach. Dylai cynlluniau lleol sefydlu 'patrwm datblygu sy'n gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol'. Mae'n ofynnol i ACLlau baratoi polisïau cynllunio a gwneud penderfyniadau sy'n 'datblygu ac yn cynnal lleoedd sy'n cefnogi ffyrdd iach a gweithgar o fyw ar draws pob grŵp oedran ac economaidd-gymdeithasol'.

3.2. Mae Pennod 4 PCC, Mannau Egnïol a Chymdeithasol, yn nodi: 'Mae tai da, mynediad at wasanaethau, mannau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol yn helpu i greu'r amodau cywir ar gyfer gwell iechyd a lles' a 'gellir eu cyflawni hefyd drwy wella mynediad at wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol, mannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden i gefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw'

3.3. Mae gan PCC ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd, gyda thri dimensiwn i'r cysyniad: Egnïol a Chymdeithasol; Cynhyrchiol a Mentrus, Nodedig a Naturiol. Mae'r thema Egnïol a Chymdeithasol yn annog lleoedd 'sy'n hyrwyddo ein lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trwy ddarparu cymunedau cydlynol sydd wedi'u cydgysylltu'n dda'. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn tynnu sylw at y rôl bwysig y mae seilwaith economaidd yn ei chwarae wrth gyfrannu at gymunedau cydlynus: 'Mae'n galluogi pobl i gysylltu a rhyngweithio â'i gilydd, naill ai'n bersonol neu'n electronig, i gynyddu ffyniant.... ac mae'n darparu lle i bobl weithio a mwynhau ein hasedau naturiol a diwylliannol'.

3.4. Mae Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol[2] yn cyfeirio at gynllunio ar gyfer amgylchedd sy'n cefnogi iechyd da, yn annog teithio llesol, yn gwella mynediad i gludiant cyhoeddus, yn creu mannau agored o ansawdd uchel, a seilwaith gwyrdd ar gyfer hamdden.

3.5. Mae PCC yn cadarnhau y gall cynllunio ddylanwadu ar yr amgylchedd adeiledig i wella iechyd a hyrwyddo pwysau iach mewn cymunedau lleol. Gall ACLlau chwarae rôl wrth alluogi amgylchedd iachach trwy gefnogi cyfleoedd i gymunedau fanteisio ar ystod eang o opsiynau bwyd iachach. Gall polisïau hefyd ofyn am ddarparu rhandiroedd neu gerddi rhandiroedd, er mwyn sicrhau bod digon o leoedd ar gael ar gyfer cyfleoedd i dyfu bwyd.

3.6. Mae'n amlwg bod PCC yn cefnogi cynnwys iechyd a llesiant mewn polisi cynllunio a gwneud penderfyniadau. Amlygir amgylcheddau gweithredol sy'n hybu iechyd a lles fel materion perthnasol ar gyfer pennu polisi lleol a chanlyniad ceisiadau yn ogystal ag ystyried effeithiau negyddol posib ar lesiant.

3.7. Mae iechyd yn fater trawsbynciol wrth gynllunio ac yn cysylltu â llawer o feysydd o fewn y CDLl a pholisïau a strategaethau eraill. Y rheswm am hyn yw bod gan benderfynyddion ehangach iechyd ddimensiynau lluosog ar draws yr economi, yr amgylchedd a chymdeithas. Y rhai y dylid eu nodi'n benodol yw: [LLEOL ***Dylid ychwanegu awdurdod lleol sydd â chynnwys lleol, gan gynnwys dolenni i gynlluniau lleol, polisïau a blaenoriaethau ehangach a nodir mewn strategaethau iechyd***].



[2] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol https://llyw.cymru/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020

4. Y sail resymegol (cyd-destun polisi a thystiolaeth) ar gyfer hyrwyddo amgylcheddau iach trwy gynllunio.

**Data demograffaidd ac Asesiadau Llesiant**

4.1. Yn genedlaethol, mae bron i 60% o oedolion a 27% o blant 4-5 oed dros bwysau ac yn ordew, ac mae'r duedd honno'n cynyddu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru)[3]. Mae deiet, gweithgarwch corfforol a phwysau iach yn ffactorau allweddol wrth bennu iechyd unigolyn yn y dyfodol. Adlewyrchir y data cenedlaethol mewn ardaloedd lleol: mae'r ffigurau'n uwch mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o amddifadedd; gyfer plant 4-5 oed mae bwlch o 6% rhwng lefelau gordewdra yn ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Cymru [30].

4.2. [LLEOL Dylid defnyddio data lleol i ddisgrifio'r sefyllfa mewn ardal ALl, gan gyfeirio at Asesiadau o Anghenion Iechyd, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd (PHOF), data a gesglir yn lleol, gan gynnwys ffigurau gordewdra, a strategaethau].

**Y cyd-destun polisi cenedlaethol**

4.3. Mae adroddiad Foresight 'Tackling Obesities: Future Choices Project Report' (2007) yn nodi sbardunau a chymhlethdod gordewdra ledled y DU, ynghyd â thystiolaeth wyddonol a thystiolaeth arall, a gadarnhaodd fod cymeriant a threuliant egni yn cael ei bennu gan system gymhleth amlweddog o benderfynyddion (achosion)[4].

4.4. Mae newidiadau i'n hamgylchedd (gan gynnwys yr amgylchedd gweithgarwch corfforol ac sy'n gysylltiedig â bwyd) yn rhan angenrheidiol o unrhyw ymateb i gefnogi newid ymddygiad a phatrymau ymddygiad priodol. Gall datrysiadau i fynd i'r afael â'r amgylchedd obesogenig megis newidiadau mewn seilwaith trafnidiaeth a dylunio trefol fod yn fwy anodd a chostus na thargedu ymyriad at y grŵp, y teulu neu'r unigolyn. Fodd bynnag, maent yn fwy tebygol o effeithio ar lwybrau lluosog o fewn y system gordewdra mewn ffordd gynaliadwy.



[3] Gordewdra yng Nghymru (2019), Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru http://www.arsyllfaiechydcyhoedduscymru.wales.nhs.uk/gordewdrayngnghymru

[4] Tackling obesities: future choices (2007), Foresight Programme, Llywodraeth y DU https://www.gov.uk/government/publications/reducing-obesity-future-choices

4.5. Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar lywodraeth leol yn 2015 i ddefnyddio eu pwerau i weithredu parth gwahardd 400 metr ar gyfer gwerthwyr bwyd cyflym o amgylch ysgolion i helpu i ddiogelu iechyd myfyrwyr. Mae Canllaw Iechyd Cyhoeddus y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ar Atal Clefydau Cardiofasgwlaidd (PH25) yn argymell camau i annog awdurdodau cynllunio lleol i gyfyngu ar ganiatâd cynllunio ar gyfer busnesau cludfwyd poeth a siopau manwerthu bwyd eraill mewn ardaloedd penodol (er enghraifft, o fewn pellter cerdded i ysgolion). Mae Canllaw NICE NG90 – 'Gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd' yn amlinellu arfer gorau i hyrwyddo gweithgarwch corfforol drwy wella'r amgylchedd ffisegol[5].

4.6. Amlygodd Strategaeth Pwysau Iach Cymru Llywodraeth Cymru yr angen am fynd i'r afael â phroblem iechyd fawr plant sy'n dechrau'r ysgol a hwythau dros bwysau[6]. Yn 2020, mae mwy nag 1 o bob 4 o blant Cymru yn dechrau'r ysgol naill ai dros bwysau neu'n ordew. Ymhlith ystod o fesurau, maent yn cynnwys erbyn 2030: gwaharddiad ar hysbysebu bwydydd afiach yn gyhoeddus, uchelgeisiau ar gyfer labelu calorïau gorfodol yn y sector y tu allan i'r cartref, cyfyngiadau ar sefydlu busnesau cludfwyd poeth o amgylch ysgolion a chymunedau, cyfyngiad ar hyrwyddiadau pris ar gyfer bwydydd llai iach a gwaharddiad ar werthu diodydd egni i blant.

4.7. Mae Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd[7], yn darparu arweiniad gan Gynulliad Cymru, ar gaffael bwyd mwy iach a chynaliadwy gan y sector cyhoeddus a fframwaith i gyflenwyr a chynhyrchwyr. Gellir defnyddio hyn ar y cyd ag adnoddau megis 'GwerthwchiGymru'[8] a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol[9].

**Diffinio amgylchedd pwysau iach**

4.8. Mae amgylchedd pwysau iach yn cefnogi pobl i gynnal pwysau iachach ac osgoi mynd dros bwysau neu'n ordew trwy'r ffordd y mae lle wedi'i gynllunio a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu. Mae'n annog gweithgarwch corfforol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy ac yn blaenoriaethu teithio llesol. Mae'r amgylcheddau hyn yn helpu pobl i gynnwys gweithgarwch corfforol yn eu bywydau bob dydd, creu cynnig bwyd ehangach a galluogi mynediad mwy hwylus at wasanaethau cymorth. Maent yn hyrwyddo ansawdd aer da a seinwedd briodol sy'n annog bywydau egnïol ac ymgysylltu cymdeithasol.

4.9. Yn 'Cynllunio amgylcheddau pwysau iach', nododd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA) chwe elfen i helpu i sicrhau amgylcheddau pwysau iach drwy'r broses gynllunio[10]. Mae'r rhain yn darparu fframwaith defnyddiol i awdurdodau lleol a datblygwyr ystyried effaith datblygiadau newydd a'r ffyrdd y gellir eu cynllunio i gefnogi pobl i gynnal pwysau iach. Y chwe elfen yw: **symudiad a mynediad mannau agored, hamdden a chwarae; yr amgylchfyd bwyd; mannau'r gymdogaeth; dylunio adeiladau; a'r economi leol.**

---

[5] Gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd, Canllaw NICE NG90 (2018), https://www.nice.org.uk/guidance/ng90
[6] Pwysau Iach Cymru Iach, Iechyd Cyhoeddus Cymru, (2019), https://llyw.cymru/strategaeth-pwysau-iach-pwysau-iach-cymru-iach
[7] Ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd (2018), Cynulliad Cenedlaethol Cymru https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11576/cr-ld11576-w.pdf
[8] GwerthwchiGymru https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/
[9] Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol https://llyw.cymru/y-gwasanaethau-caffael-cymru
[10] Cynllunio Amgylcheddau Pwysau Iach (2014), TCPA, https://www.tcpa.org.uk/older-publications

4.10. Nodweddion allweddol yr elfennau hyn yw creu lleoedd sy'n:

- **blaenoriaethu cerdded, beicio a chludiant torfol** trwy newidiadau syml fel lonydd beicio pwrpasol, rheseli beiciau mewn sefyllfa dda a phalmentydd llydan, wedi'u goleuo'n dda, sy'n annog unigolion i adael eu ceir gartref;
- **darparu mannau cymunedol** sy'n cefnogi llesiant ac yn annog ymddygiad actif mewn plant ac oedolion, gydag ansawdd aer da a seinweddau priodol;
- **creu adeiladau sy'n gallu hyrwyddo ffordd iach o fyw**, fel adeiladu cartrefi gyda cheginau sy'n ddigon mawr i bobl storio, paratoi a choginio prydau bwyd a bwyta gyda'i gilydd, neu ddylunio adeiladau masnachol sy'n annog y defnydd o risiau; a
- **thaclo'r amgylchedd bwyd** megis cyfyngu clystyru busnesau cludfwyd yn agos i ysgolion, gan gydweithio gyda siopau manwerthu lleol i ddarparu opsiynau iachach a darparu mannau lleol ar gyfer tyfu bwyd.

4.11. Mae'r CCA hwn yn darparu disgwyliadau o sut y gellir ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu yng nghyd-destun y chwe elfen i helpu i gyflawni amgylcheddau pwysau iach a nodwyd gan y TCPA.

# Pennod 2 – Meysydd gweithredu â blaenoriaeth

## 5. Blaenoriaeth 1 - Darparu amgylchedd bwyd lleol cytbwys, sy'n hyrwyddo dewisiadau iachach

5.1. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y ffaith y gall cynllunio ddylanwadu ar yr amgylchedd adeiledig i wella iechyd a hyrwyddo pwysau iach mewn cymunedau lleol. Mae'n nodi y gall awdurdodau cynllunio lleol chwarae rôl wrth alluogi amgylchedd iachach trwy gefnogi cyfleoedd i gymunedau fanteisio ar ystod eang o opsiynau cynhyrchu a defnyddio bwyd iachach.

[LLEOL ALl i ychwanegu manylion dolenni i bolisïau cynlluniau lleol]

### Busnesau cludfwyd a darpariaeth manwerthu bwyd lleol

5.2. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau cludfwyd poeth (BCP) yn cynnig bwyd a diod sy'n ddwys o ran egni ac yn uchel mewn braster, halen neu siwgr. Mae BCP o fewn pellter cerdded hawdd, yn cynnig opsiwn bwyd llai iach ond sy'n aml yn ddeniadol a fforddiadwy i ddisgyblion ysgol a gallai hyn fod yn ffactor sy'n cyfrannu at arferion bwyta gwael mewn plant ac yn mynd yn groes i raglenni bwyta'n iach mewn ysgolion.

5.3. Er mwyn creu amgylchfyd lleol, sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi iechyd y gymuned leol, mae'r Cyngor yn dymuno lleihau nifer y busnesau cludfwyd poeth, yn enwedig yng nghyffiniau ysgolion a chanolfannau cymunedol.

5.4. Ceir cyhoeddiadau a phapurau ymchwil sy'n nodi'r angen i gyfyngu ar argaeledd busnesau cludfwyd poeth fel rhan o ddull strategol o hyrwyddo pwysau iach a'r costau dilynol i gymdeithas a gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cynnwys manylion y sylfaen dystiolaeth y seilir eu canfyddiadau a'u hargymhellion arni. Er enghraifft, mae Canllaw Iechyd Cyhoeddus NICE ar atal clefydau cardiofasgwlaidd (PH25)

yn argymell camau i annog awdurdodau cynllunio lleol i gyfyngu ar ganiatâd cynllunio ar gyfer busnesau cludfwyd a siopau manwerthu bwyd eraill mewn ardaloedd penodol (er enghraifft, o fewn pellter cerdded i ysgolion)[11].

5.5. Dylid ystyried yn fras dwysedd busnesau cludfwyd mewn perthynas ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol, gan fod astudiaethau wedi sefydlu niferoedd uwch mewn ardaloedd o amddifadedd uwch a all hefyd ymwneud â lefelau uwch o ordewdra yn yr ardaloedd hynny.

5.6. Mae gan wella ansawdd yr amgylchedd bwyd o amgylch ysgolion y potensial i ddylanwadu ar ymddygiad plant drwy eu harferion prynu bwyd. Mae'n bwysig nodi mai dim ond rhan o'r ateb yw gweithredu ar BCP, gan nad yw'n mynd i'r afael â melysion a bwyd arall y gall plant ei brynu mewn siopau ger ysgolion.

5.7. Mae bwyd llai iach fel arfer yn cael ei werthu o ????? ac mewn amrywiaeth o safleoedd o fewn amrywiaeth o fusnesau eraill, fel siopau coffi neu frechdanau, siopau bara ac ati. Fodd bynnag, er y maent hefyd werthu bwyd llai iach, mae hyn yn aml yn tueddu i fod yn gyfran lai o'r nwyddau sydd ar gael o gymharu â llawer o BCP. Gall y busnesau hyn ddarparu gwasanaeth hanfodol i gymunedau lleol sy'n darparu mynediad lleol at fwyd, darparu rhan o'r seilwaith cymunedol lleol a gwella bywiogrwydd canolfannau lleol. Bydd yr ALl yn gweithio gyda busnesau bwyd i hyrwyddo bwyta'n iach drwy ei ymagwedd at yr amgylchedd bwyd y tu allan i'r cartref. Nid yw'r graddau y mae gwerthu eitemau BCP yn atodol i'r prif ddefnydd o fewn safleoedd A3 wedi'i ddiffinio, ond mae penderfyniadau apelio wedi dal hyn yn 4 - 10% o gyfanswm y gwerthiannau.

5.8. [LLEOL ALl i ategu manylion niferoedd a lleoliad y siopau presennol gan ddefnyddio'r offeryn Feat neu astudiaethau lleol eraill].

---

[11]Atal clefyd cardio fasgwlaidd (PH25) (2010), NICE, https://www.nice.org.uk/guidance/ph25

5.9. LLEOL

Defnyddir y meini prawf canlynol ar gyfer rheoli ceisiadau cynllunio sydd ag elfen o fwyd cyflym i hyrwyddo amgylcheddau bwyd iachach:

Dwysedd a Chlystyru Busnesau Cludfwyd Poeth

- Ni ddylai ceisiadau am fusnesau cludfwyd poeth (BCP) A3 newydd arwain at ddwysedd gormodol o ddefnyddiau BCP A3 mewn unrhyw ardal unigol drwy or-ddominyddu'r stryd neu gael effaith andwyol ar safon amwynder deiliaid tir ac adeiladau presennol ac yn y dyfodol. Mae hefyd yn briodol rheoli nifer y busnesau pan fydd pryderon ynghylch lefelau gordewdra neu pan fo'n fwy na'r dwyseddau cyfartalog.
- Bydd penderfyniadau ynghylch dwyseddau BCP priodol yn seiliedig ar y ffactorau a ganlyn:
  - o fewn ffryntiadau cynradd, ni fydd mwy na X% o'r ffryntiadau yn cael eu defnyddio gan fusnesau cludfwyd A3;
  - o fewn ffryntiadau eilaidd, ni fydd mwy na X% o'r ffryntiadau yn cael eu defnyddio gan fusnesau cludfwyd A3;
  - o fewn Canolfannau Lleol neu Ganolfannau Cymdogaeth, ni fydd mwy na X% o'r ffryntiadau yn cael eu defnyddio gan fusnesau cludfwyd A3;
  - ym mhob lleoliad, ni fydd mwy na 2 BCP yn cael eu lleoli gerllaw ei gilydd;
  - o leiaf 2 uned nad ydynt yn BCP rhwng grwpiau o unedau BCP;
  - mewn lleoliadau lle ceir lefelau uchel o ordewdra, ni roddir caniatâd cynllunio at ddefnydd BCP A3 mewn wardiau lle mae mwy na X% o ddisgyblion 4-5 oed wedi'u dosbarthu'n ordew;

ni fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi fel arfer at ddefnydd BCP A3 pan fydd nifer y sefydliadau BCP A3 a gymeradwyir, o fewn y ward, yn hafal i neu'n fwy na chyfartaledd cenedlaethol y DU, fesul 100,000 o'r boblogaeth.

**Lleoliad busnesau cludfwyd poeth**

5.10. LLEOL

Ni chymeradwyir ceisiadau am BCP A3 mewn lleoliadau sy'n agosach na 400 metr o fynedfa i ysgol gynradd neu uwchradd, canolfan ieuenctid, neu leoliad tebyg.

5.11. Cydnabyddir y pellter o 400m fel pellter cerdded rhesymol, sy'n cyfateb i amser cerdded o tua 5 munud, ac mae'n addas o ystyried hyd amseroedd egwyl arferol yr ysgol.

5.12. Mae'r dystiolaeth a chyhoeddiadau'n awgrymu y gall cyfyngu ar argaeledd busnesau cludfwyd o fewn pellter cerdded i ysgolion gyfrannu at fynd i'r afael â'r lefelau cynyddol o ordewdra ac effeithiau eraill ar iechyd megis clefyd cardiofasgwlaidd. Ystyriwyd bod 400 metr yn bellter cerdded rhesymol ac fe'i hamlinellir yng Nghanllawiau'r Compendiwm

Dylunio Trefol[12] a CIHT ar gyfer darparu teithiau ar droed. Mae'r parth 400 metr yn safon dderbyniol ar draws llawer o bolisïau cynllunio.

5.13. Mae'r egwyddor hon yn cynnwys ysgolion cynradd er y cydnabyddir na chaniateir i'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion cynradd fynd allan o dir yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol, ac mae disgyblion yn debygol o gael rhiant, gwarcheidwad neu oedolyn goruchwyliol, yn ystod y teithiau i'r ysgol ac oddi yno. Caniateir i rai plant ysgol gynradd, fel y rhai ym mlwyddyn 6, gerdded i'r ysgol ac oddi yno ar eu pennau eu hunain, er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo i ysgolion uwchradd. Nodir y gall teuluoedd ddefnyddio busnesau cludfwyd poeth ar y ffordd adref o'r ysgol ac nad yw presenoldeb oedolyn o reidrwydd yn golygu na fydd cludfwyd yn cael ei brynu a'i fwyta wedyn gan blant. Mae'r Cyngor o'r farn bod plant ysgol gynradd sy'n defnyddio unedau BCP A3 yn bryder y dylid mynd i'r afael ag ef ochr yn ochr â disgyblion ysgolion uwchradd.

5.14. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun ac mae'n rhaid ystyried y parth 400m yng nghyd-destun topograffeg leol a chyd-destun y cais unigol. Mae ffactorau lliniarol y gellir eu hystyried, er enghraifft y potensial ar gyfer rhwystrau naturiol neu rwystrau artiffisial sy'n cyfyngu ar hygyrchedd o ysgolion, hyd yn oed o fewn y parth gwahardd llinell uniongyrchol 400m.

### Rheolaeth weithredol

5.15. LLEOL

Er mwyn isafu'r effaith ar yr amgylchedd lleol, amwynder a hyrwyddo amgylchedd pwysau iach, gall fod yn briodol rheoli oriau gweithredol ac agor y safle.

5.16. Pan fo cais am fusnes cludfwyd poeth wedi'i ganiatáu o fewn parth gwahardd, ni fydd y busnes ar agor yn ystod egwyliau ysgol ac ar adegau sy'n cwmpasu dechrau a diwedd y diwrnod ysgol arferol.

5.17. Mewn achosion pan roddir caniatâd cynllunio, efallai y byddai'n briodol cyfyngu ar oriau agor er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu amgylchedd pwysau iach. Pan roddir caniatâd cynllunio, caiff oriau gweithredu eu rheoli drwy amodau cynllunio (felly mae oriau derbyniol yn amrywio gan ddibynnu ar leoliad y busnes cludfwyd).

5.18. Mae'n bosib y bydd angen Trwydded Safle ar safleoedd sy'n gwerthu bwyd poeth hefyd. Mae'n rhaid nodi y gall cyfyngiadau a osodir ar oriau gweithredu safleoedd drwy ganiatâd cynllunio fod yn wahanol i'r rhai a roddir mewn Trwydded Safle.

### Argaeledd opsiynau mwy iach

5.19. Anogir gweithredwyr BCP i gefnogi blaenoriaethau bwyta'n iach yr ALl ac i ddarparu dewisiadau bwyd iachach a gwybodaeth am faeth wrth y man gwerthu. Er na all cynllunio ymwneud yn uniongyrchol â'r math o fwyd sy'n cael ei werthu, mae'n briodol tynnu sylw gweithredwyr bwyd at y mater yn ystod y broses gynllunio. Yn ogystal, gall partneriaethau gyda siopau bwyd a chyflenwyr lleol gynnwys:

---

[12] Compendiwm Dylunio Trefol, Home and Communities Agency (2000), https://www.gov.uk/government/publications/urban-design-compendium

- lleihau'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng bwydydd iach ac afiach;
- gostyngiadau ar gynhyrchion iachach gyda busnesau'n ymrwymo i gynlluniau arlwyo iechyd;
- cydweithio ar labelu i dynnu sylw at ddewisiadau bwyd iachach, fel llai o halen;
- sicrhau y gall cyflenwyr bwyd gynnig bwydydd iachach am brisiau mwy cystadleuol a rhoi cynnyrch iachach mewn mannau amlwg yn yr amgylchedd manwerthu.

Mae mwy o awgrymiadau mewn cyhoeddiadau megis 'Strategies for Encouraging Healthier 'Out of Home' Food Provision: A toolkit for local councils working with small food businesses', a gomisiynwyd gan Public Health England[13].

**Rhandiroedd a Mannau Tyfu Bwyd Cymunedol**

5.20. LLEOL

Dylai datblygiadau ddarparu gofod priodol ar gyfer darparu rhandiroedd a mannau tyfu bwyd yn lleol.

5.21. Bydd darparu rhandiroedd ar ddatblygiadau newydd yn cynorthwyo'r ALl wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau a chynorthwyo gyda rhestrau aros lleol.

5.22. Mae rhandiroedd yn parhau i fod yn boblogaidd iawn yng Nghymru, ac mae gan lawer o ranbarthau restrau aros hir ***[LLEOL Awdurdod Lleol i ychwanegu tystiolaeth leol berthnasol].***

5.23. Mae'n rhaid ystyried tyfu bwyd mewn unrhyw ddatblygiadau newydd fel opsiwn normal i'w integreiddio i fannau gwyrdd eraill. Mae'n ofynnol i ddatblygiadau tai (gan gynnwys cynlluniau defnydd cymysg) sy'n fwy na [LLEOL X] o anheddau gyfrannu tuag at ddarparu rhandiroedd, mannau gwyrdd cymunedol a mannau gwyrdd bwytadwy. Dylai hyn fod ar gael i bob aelod o'r gymuned leol.

5.24. Ni chaniateir ailddatblygu safleoedd rhandir presennol at ddibenion eraill oni ddarperir darpariaeth amgen, addas.

5.25. Y safon leol ar gyfer rhandiroedd yw [LOCAL X] 0.3 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth, o fewn amser/pellter cerdded [LOCAL X] munud, gydag isafswm maint o [LOCAL X] hectar. Gellir ystyried darpariaeth lai fesul achos. Gellir dehongli'r term 'rhandiroedd' yn eang, ond mae'n rhaid ei ddiogelu fel rhandir/man tyfu bwyd ar gyfer trigolion y presennol a'r dyfodol.

5.26. Gall rhandiroedd a chyfleoedd i dyfu yn y gymuned fod yn heriol mewn sefyllfaoedd dwysedd uchel ond mae datblygiadau newydd yn creu'r potensial i ymgorffori cyfleoedd tyfu bwyd yn eu dyluniad. Bydd y ddarpariaeth safonol o gerddi a rhandiroedd yn parhau, ond dylid ystyried defnyddio toeon, waliau a balconïau'n greadigol pan fydd gofod allanol yn gyfyngedig. Gall hefyd gynnwys tirlunio gyda phlanhigion bwytadwy yn hytrach na choed addurnol a llwyni.

---

[13] Strategies for Encouraging Healthier 'Out of Home' Food Provision: A toolkit for local councils working with small food businesses (2017), Public Health England, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/832910/Encouraging_healthier_out_of_home_food_provision_toolkit_for_local_councils.pdf

5.27. Dylid dylunio'r safle rhandir newydd mewn ymgynghoriad â deiliaid y lleiniau a'u cymdeithas, a chyda sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, yn enwedig y Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol[14]. Dylai ymgorffori nodweddion a dyluniadau i alluogi mynediad a defnydd gydol oes. Mae canllawiau ar gael gan y Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol.  Mae gwelyau uchel hefyd yn dderbyniol fel ffordd o ddarparu lle i dyfu ar dir gwael, daear galed neu ar doeon. Dylid dylunio gwelyau uchel i fod yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn a garddio wrth eistedd.

## 6. Blaenoriaeth 2 - Hyrwyddo teithio llesol, gweithgarwch corfforol a chysylltedd

6.1. Mae'r adran hon yn ymdrin â:

- symudiad a mynediad;
- mannau agored;
- hamdden a chwarae;
- ansawdd aer a seinwedd.

[LLEOL ALl i ychwanegu manylion dolenni i bolisïau cynlluniau lleol]

6.2. Wrth ystyried cynigion datblygu, bydd yr ALl yn mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol sy'n adlewyrchu'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn PCC. Mae datblygu cynaliadwy yn cynnwys hyrwyddo hygyrchedd i gyfleusterau bob dydd, yn enwedig y rhai heb gar. Bydd canllawiau NICE sy'n ymdrin â gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd yn sail i ddylunio da.

6.3. Yn ogystal ag annog gweithgarwch corfforol, mynediad i fannau agored a gwyrdd a glas, mae mannau chwarae, chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill yn hyrwyddo gwell iechyd meddwl a llesiant. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cyfleoedd i ymlacio a lleihau straen drwy hwyluso rhyngweithio cymdeithasol mewn cymunedau gan gynnwys y bobl hynny a allai deimlo eu bod wedi'u 'hallgáu' am resymau penodol. Mannau agored cyhoeddus yw'r 'glud' sy'n rhwymo lle a chymuned, gan ei wneud yn hygyrch, yn ddeniadol ac yn ddiogel ac yn lle hawdd i symud o gwmpas. Ystyrir bod angen darparu mannau agored swyddogaethol er mwyn sicrhau cymunedau egnïol, iach ac integredig.

6.4. Yn ychwanegol at fanteision gwella iechyd corfforol a meddyliol trigolion, mae mynediad i fannau gwyrdd a glas agored sydd wedi'u cynllunio'n dda yn hyrwyddo mwy o fio-amrywiaeth mewn dinasoedd, yn lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â dosbarthu bwyd dros bellter hir, ac yn helpu i wneud y dirwedd drefol yn fwy gwyrdd.  Gall waliau a thoeon gwyrdd gyfrannu at leihau effeithiau ynysoedd gwres trefol, cynyddu arbedion ynni a lleihau allyriadau carbon.

**Darparu mannau gwyrdd a glas**

[14] Y Gymdeithas Rhandiroedd Genedlaethol, natsoc@nsalg.org.uk

6.5. LLEOL

> Dylai datblygiadau ddarparu ansawdd, maint ac amrywiaeth priodol o fannau agored, gan gynnwys mannau gwyrdd agored newydd a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes, rhandiroedd, campfeydd cymunedol, cyfleusterau hamdden a hamdden i sicrhau gwell iechyd a lles i'r boblogaeth.

6.6. Dylid dylunio mannau agored i fod yn hygyrch i bawb a dilyn egwyddorion cymdogaeth oes. Bydd mannau chwarae i blant a defnyddiau cymunedol awyr agored yn cael eu hannog a dylid eu gosod mewn lleoliadau hygyrch sydd o fewn pellter teithio rhesymol. Dylai safleoedd masnachol ddarparu man hygyrch sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol y rhai a gyflogir ar y safle, e.e. teithiau cerdded, llwybrau neu fannau agored cymunedol.

6.7. Wrth asesu darpariaeth a defnydd mannau agored, cyfeirir at bolisïau mannau agored sy'n bodoli eisoes er mwyn pennu safonau priodol ar gyfer darparu mannau agored, chwaraeon a chyfleusterau hamdden. Mae hyn yn ystyried y manteision lluosog a gyflawnir drwy amrywiol swyddogaethau mannau agored gan gynnwys: swyddogaethau strategol; ansawdd trefol; hyrwyddo iechyd a llesiant; hafanau a chynefinoedd fflora a ffawna; fel adnodd cymunedol; ac fel amwynder gweledol.

6.8. Dylid asesu unrhyw ailddatblygu ar fannau agored neu wyrdd neu rai newydd. Mewn rhai achosion, mae'n ddigon posib y bydd mannau gwyrdd o ansawdd gwael sy'n cael ei ddisodli gan ofod llai o ansawdd uwch yn rhoi mwy o fanteision ar y cyfan. Dylid asesu ansawdd y ddarpariaeth o fannau gwyrdd, er enghraifft drwy ddefnyddio:

- Building with Nature[15];
- Offeryn Mannau Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Offeryn Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch Natural England (ANGSt)[16];
- Yr Offeryn Rhoi Gwerth ar Hamdden Awyr Agored (ORVaL)[17];
- Offeryn Cynllunio Cyfalaf Naturiol[18]; a
- Safon Gwobr y Faner Werdd[19].
- [LLEOL ALl i ychwanegu manylion unrhyw asesiadau, safonau neu ganllawiau mannau agored lleol]

**Dylunio'r amgylchedd adeiledig a naturiol / maes cyhoeddus**

6.9. LLEOL

> Dylai cynigion datblygu wella cyfleoedd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a darparu seilwaith o ansawdd uchel i gefnogi teithio llesol (e.e. cerdded a beicio) a hefyd ymgorffori creu cymdogaethau gydol oes a 'chymdogaethau cerdded'. Sut fydd y cynigion yn effeithio ar ansawdd aer lleol a'r seinwedd, yn gadarnhaol neu'n negyddol? A fydd sŵn presennol neu ansawdd aer gwael yn effeithio ar ddefnydd arfaethedig y datblygiad?

[15] Building with Nature Standards, https://www.buildingwithnature.org.uk/about
[16] Accessible Natural Green Space Standards in Towns and Cities, Natural England http://publications.naturalengland.org.uk/publication/65021
[17] Outdoor Recreation Valuation Tool (ORVal: Fersiwn 2.0), https://www.leep.exeter.ac.uk/orval/
[18] Natural Capital Planning Tool, http://ncptool.com/
[19] Gwobr y Faner Werdd, http://www.greenflagaward.org.uk/

6.10. Bydd cynigion sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau cerdded a beicio presennol (megis hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau tynnu ac ati) a gwelliannau yn cael eu hystyried yn ffafriol. Dylai datblygiadau gynnwys cynlluniau teithio a chynnwys dolenni i rwydweithiau cerdded a beicio sy'n bodoli eisoes pan fo'n bosib. Dylai cynlluniau teithio ragweld effeithiau trafnidiaeth y datblygiad a sefydlu mesurau i hyrwyddo ac annog teithio cynaliadwy a llesol, megis hyrwyddo cerdded a beicio. Dylid integreiddio cynlluniau teithio i ddyluniad a meddiannaeth y safle newydd yn hytrach na'u hôl-osod ar ôl eu meddiannu.

6.11. Dylai cynlluniau teithio gyfrannu'n gadarnhaol at:

- annog teithio cynaliadwy a llesol;
- lleihau cynhyrchu traffig a'i effeithiau niweidiol;
- lleihau allyriadau carbon ac effeithiau hinsawdd;
- creu cymunedau hygyrch, cysylltiedig a chynhwysol;
- gwella diogelwch y ffyrdd; a
- lleihau’r angen i ddatblygiadau newydd gynyddu capasiti ffyrdd presennol neu ddarparu ffyrdd newydd.

6.12. Dylai datblygwyr nodi mewn Datganiad Dylunio a Mynediad sut y maent wedi mynd i'r afael â hygyrchedd. Gall hyn fod drwy ddyluniadau, dewis a lleoliad priodol dodrefn stryd, dylunio ffyrdd a rhyngweithio â cherddwyr, goleuo digonol a chamau eraill i sicrhau ardal sydd nid yn unig yn ddiogel ond hefyd yn rhydd rhag ofn trosedd ac anhrefn. Dylid defnyddio hyn i ddatblygu nodweddion ffisegol a chymdeithasol sy'n cefnogi cymdogaethau gydol oes. Mae'r canllaw Active Design[20] a gynhyrchwyd gan Sport England yn cynnwys rhestrau gwirio defnyddiol i helpu i asesu gallu datblygiadau i sicrhau canlyniadau mwy gweithredol ac iachach.

6.13. Wrth ystyried manylion y datblygiad, dylai cynigion:

- rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr drwy ddylunio a chynllunio datblygu gan gynnwys mesurau gostegu traffig;
- cysylltu datblygiadau preswyl newydd mawr â rhwydweithiau cerdded a beicio sy'n bodoli eisoes, ac yn benodol ystyried mynediad cyfleus, diogel a deniadol i gyflogaeth, cartrefi, ysgolion a chyfleusterau cyhoeddus;
- hyrwyddo 'teithio llesol' wrth ddylunio datblygiadau tai a masnachol newydd mawr, h.y. storio beiciau, cawodydd, cyfleusterau sychu dillad;
- eisio lleihau llygredd sŵn ac aer ar hyd llwybrau teithio llesol;
- sicrhau bod dylunio lleoedd a mannau yn caniatáu symud uniongyrchol a diogel i bobl a bod mannau cyhoeddus yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn ddiogel, er mwyn eu hannog i'w defnyddio;
- ystyried gwyliadwriaeth naturiol wrth ddylunio cynigion datblygu;
- dylunio ardaloedd hamdden a mannau gwyrdd a glas naturiol i annog rhyngweithio dynol ar gyfer pob oedran a gallu;
- cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod gan bawb ym mhob cyfnod bywyd y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, er enghraifft, toiledau cyhoeddus, dylunio a chysgodi dodrefn stryd priodol; a

[20] Active Design Guide, Sport England, https://www.sportengland.org/how-we-can-help/facilities-and-planning/design-and-cost-guidance/active-design

- phan fo'n bosib, sicrhau y dylai datblygiadau cyflogaeth newydd gynnwys mannau awyr agored deniadol a diogel neu gysylltiadau da ag ardaloedd awyr agored sy'n bodoli eisoes a fydd yn rhoi cyfleoedd hamdden i weithwyr.

6.14. Dylai cynigion ystyried ansawdd aer a'r seinwedd yn unol â gofynion PCC a chanllawiau arfer gorau cyfredol ar y pynciau hynny, gan gynnwys unrhyw Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

## 7. Blaenoriaeth 3 - Dylunio adeiladau

7.1. LLEOL

> Dylai'r adeiladau yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt hyrwyddo gweithgarwch corfforol fel rhan o'n trefn arferol a dylent hybu bwyta'n iach.

[LLEOL ALl i ychwanegu manylion dolenni i bolisïau cynlluniau lleol perthnasol]

7.2. Er mwyn cyflawni nodau'r canllawiau hyn, dylid dylunio a chodi adeiladau, pan fo'n bosib, gan gyfeirio at y canlynol:

- dylai fod gan gartrefi fynediad digonol a mannau ar gyfer storio beiciau'n ddiogel;
- mae datblygiadau'n cynnwys mannau awyr agored preifat neu led-breifat, megis gardd flaen neu gefn, a/neu falconïau o faint digonol;
- isafu mannau parcio fesul annedd, ac atal parcio ceir ar y stryd rhag peryglu rhwydweithiau cerdded a beicio diogel;
- mae gan adeiladau annomestig neu fannau cymunedol risiau deniadol, gweladwy iawn ac ag arwyddion arnynt yn agos at y mannau mynedfa neu ymadael. Dylai dyluniad a chynllun mewnol hyrwyddo gweithgarwch corfforol;
- Dylai datblygiadau greu cyfleoedd i greu gweithleoedd iach, sy'n achub ar gyfleoedd i annog gweithgarwch corfforol, bwyta'n iach a lles meddyliol cadarnhaol. Gallai hyn gynnwys mynediad i gyfleusterau/campfeydd chwaraeon (dan do ac awyr agored), mannau anffurfiol i weithwyr ymlacio neu gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a/neu ryngweithio cymdeithasol;
- mae adeiladau annomestig, megis lleoedd gwaith, yn cynnwys rheseli beiciau/storio beiciau a chyfleusterau newid/cawod;
- dylai datblygiadau gynnwys cynllun teithio sy'n hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy; a
- chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylid sicrhau bod gan bawb ym mhob cyfnod bywyd y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys cyfleusterau bwydo ar y fron, newid cewynnau, toiledau cyhoeddus, dodrefn stryd priodol.

7.3. Mae ysgolion yn amgylchedd allweddol i hyrwyddo ffordd iach o fyw ac felly mae dyluniad a gweithrediad ysgolion yn bwysig. Dylai ysgolion:

- ddatblygu cynlluniau teithio i'r ysgol sy'n annog teithio llesol i ysgolion, er enghraifft bysiau cerdded;
- datblygu polisïau bwyta'n iach;

- datblygu llwybrau diogel i'r ysgol ac felly dylai ysgolion gael eu cyfeirio a'u gosod i ffwrdd o barthau trafnidiaeth uchel a gwneud y defnydd gorau o'r rhwydwaith beicio a cherdded;
- ystyried mannau gollwng diogel i ffwrdd o'r ysgol. Mae hyn er mwyn annog rhywfaint o weithgarwch corfforol a hefyd i leihau tagfeydd ac allyriadau cerbydau gerllaw ysgolion. Gwaethygir tagfeydd traffig gan blant sy'n cael eu gyrru weithiau'n bellter eithaf byr i'r ysgol ac felly pan fo'n bosib dylai ysgolion wahanu mynediad i gerddwyr a cherbydau; a
- dylai fod digon o fynediad i fannau gwyrdd, mannau chwarae a chyfleusterau chwaraeon sydd wedi'u dylunio a'u cynnal a chadw'n dda.

8. **Blaenoriaeth 4 - Yr economi leol.**

8.1. Bydd cael cymdogaethau gyda theithio cynaliadwy a chymysgedd priodol o fusnesau yn cefnogi gweithgarwch economaidd ac maent hefyd yn hybu iechyd. Mae manwerthwyr yn adrodd am gynnydd 40% mewn masnach pan fydd lleoedd yn cael eu gwneud yn fwy deniadol ar gyfer cerdded. Gall yr angen am deithio fod yn rhwystr i gyflogaeth neu hyfforddiant ac felly cyfleoedd bywyd.

[LLEOL ALl i ychwanegu manylion dolenni i bolisïau cynlluniau lleol]

8.2. LLEOL

Dylid dylunio ac adeiladu canolfannau lleol gan gyfeirio at y canlynol:

Canol trefi a strydoedd mawr

- mae datblygu'n gwella bywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan leol drwy ddarparu cynnig manwerthu mwy amrywiol gan gynnwys amrywiaeth o opsiynau bwyd, o fewn 400-800m i'r rhan fwyaf o'r datblygiad tai;
- dylai'r ganolfan fod yn hawdd i'w gyrraedd ar gludiant cyhoeddus ac ar rwydweithiau cerdded a beicio;
- darperir cyfleusterau i bobl sy'n cerdded ac yn beicio, megis meinciau, toiledau a storio beiciau'n gyfleus.

Cyfleoedd a mynediad i swyddi

- dylai swyddfeydd a safleoedd cyflogaeth eraill fod yn hawdd eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus, ar droed neu feic;
- mae'r datblygiad yn gwella mynediad trafnidiaeth gynaliadwy i swyddi sy'n bodoli eisoes.

## 9. Blaenoriaeth 5 - Mannau'r gymdogaeth



9.1. Gall mannau a strydoedd cyhoeddus deniadol sydd wedi'u cysylltu'n dda annog chwarae, gweithgarwch corfforol, cydlyniant cymdeithasol a theithio llesol.

[LLEOL ALl i ychwanegu manylion dolenni i bolisïau cynlluniau lleol]

9.2. Mae teimlo'n anniogel mewn cymdogaeth yn gysylltiedig â chyfres o ddeilliannau iechyd negyddol a gall atal pobl rhag defnyddio'r amgylcheddau adeiledig a naturiol i ymgymryd â gweithgarwch corfforol neu i chwarae ynddo. Mae maes cyhoeddus deniadol sydd wedi'i ddylunio'n dda yn hyrwyddo defnydd ac yn gwella diogelwch.

9.3. LLEOL

> Dylid cynllunio datblygiadau i hyrwyddo'r defnydd o ofod cymunedol a chymdogaethau gydol oes.

9.4. Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o ofod cymunedol a chymdogaethau gydol oes, a dilyn egwyddorion Dylunio Gweithredol, dylai datblygiadau:

- ddarparu cyfleusterau cymunedol yn gynnar fel rhan o ddatblygiad newydd i helpu pobl i deimlo'n gysylltiedig ac i ddarparu cyrchfan leol. Dylid cyflawni hyn mewn ymgynghoriad â thrigolion pryd bynnag y bo'n bosib;
- sicrhau bod cyfleusterau cymunedol fel gwasanaethau gofal iechyd a chanolfannau hamdden yn cael eu cydleoli os yn briodol;
- darparu cyfleusterau cymunedol sy'n hawdd eu cyrchu o ble mae pobl yn byw, ag arwyddion dda, yn agos at gludiant cyhoeddus ac ar rwydweithiau cerdded neu feicio;
- cael eu dylunio i alluogi mannau cyhoeddus sy'n hyblyg, yn gadarn ac yn cefnogi swyddogaethau dinesig, diwylliannol a chymunedol, megis marchnadoedd lleol a stondinau bwyd;
- meddu ar fannau cyhoeddus sy'n hawdd eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus ac sydd ar rwydweithiau cerdded a beicio;

- meddu ar batrymau stryd cysylltiedig, gyda phellter teithio byr rhwng cyrchfannau cyffredin. Dylai patrymau stryd leihau'r pellter rhwng tarddbwyntiau a chyrchfannau drwy ddulliau teithio llesol, a chan ganiatáu sawl llwybr posib. Mae cynlluniau sydd wedi'u gor-dominyddu gan cul-de-sacs yn tueddu i leihau cysylltedd a cherdded ond gallant gefnogi chwarae ar y stryd;
- darparu ardaloedd sy'n ddeniadol ac yn hawdd dod o hyd i'ch ffordd o'u cwmpas. Mae ardaloedd yn fwy cerdded os ydynt yn 'groyw' – h.y. os oes ganddynt nodweddion fel tirnodau, ffiniau, nodau lle mae llwybrau'n cyfarfod, sy'n nodedig ac sy'n galluogi pobl i ddod o hyd i'w ffordd o'u cwmpas;
- ardaloedd preswyl a ddylunnir i roi blaenoriaeth i anghenion cerddwyr, beicwyr a phlant. Ofn traffig a 'pherygl dieithriaid' yw'r ddau brif reswm pam mae rhieni'n amharod i ganiatáu i blant chwarae y tu allan. Mae'r argymhellion presennol yn cynghori y dylai plant cyn oed ysgol fod yn gorfforol egnïol am o leiaf dair awr y dydd ac y dylai plant oedran ysgol wneud gweithgarwch corfforol cymedrol i egnïol am o leiaf awr y dydd; a
- dylunio amgylcheddau preswyl i ganiatáu i blant chwarae'n ddiogel y tu allan, er enghraifft drwy ddarparu meysydd chwarae sydd â gwyliadwriaeth naturiol, gan ddefnyddio gofod a rennir ac egwyddorion 'Parth Cartref'.

## 10. **Blaenoriaeth 6 - Cyfraniadau Datblygwyr**

10.1. Mae rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 ac ALl sydd â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol[21] yn ysgogiadau gyda'r potensial i gael eu defnyddio i helpu i sicrhau amgylchedd iach wrth roi caniatâd cynllunio, os ydynt yn bodloni profion statudol:

- sy'n angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac sy'n
- ymwneud yn deg ac yn rhesymol o ran maint a math â'r datblygiad.

10.2. Gall y cyfraniadau ariannol hyn gynnwys mentrau i fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant, megis darparu cyfleusterau mewn mannau gwyrdd a mannau chwarae i annog gweithgarwch corfforol a gwelliannau i'r amgylchedd cerdded a beicio, ymgyrchoedd bwyta'n iach a hyrwyddo dewisiadau bwyd iachach.

## 11. Ymagwedd gyffredinol

11.1. Bydd ceisiadau cynllunio mewn perthynas â defnyddiau A3 presennol a newydd sy'n bwriadu cynyddu neu gyflwyno neu elfen newydd o ddefnydd BCP A3 hefyd yn cael eu hystyried yng ngoleuni'r canllawiau uchod sy'n gymesur â graddau effaith gyffredinol yr 'agwedd busnesau cludfwyd A3'.

## 12. Monitro ac adolygu

[21] Ardoll Seilwaith Cymunedol (2019), Llywodraeth y DU, https://www.gov.uk/guidance/community-infrastructure-levy

12.1. Mae'n hanfodol sicrhau bod y CCA yn cael ei weithredu'n gywir, bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni ac os nad ydynt, pa gamau unioni y mae angen eu cymryd. O ystyried cymhlethdod darparu amgylcheddau pwysau iach, dylid ystyried monitro amgylcheddau fel rhan o ymagwedd systemau ehangach at ordewdra.

12.2. Bydd hyn wedi cael ei wneud drwy broses reolaidd o fonitro yn erbyn cyfres o ddangosyddion, a adroddwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) neu brosesau eraill fel y cytunwyd gyda'r adrannau perthnasol megis iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd. [LLEOL *ALl i dynnu sylw at AMB perthnasol a dangosyddion eraill*].

12.3. Gall y fath ddangosyddion gynnwys:

- gordewdra ymhlith plant ifanc a phobl ifanc (plant 4-18 oed);
- monitro lefelau gordewdra ymhlith y boblogaeth oedolion
- bydd lefelau gordewdra'n cael eu mesur mewn plant oedran derbyn (4-5 oed) a'r rhai ym mlwyddyn 6 (10-11 oed);
- nifer y plant sy'n ystyried bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn drwy arolygon lleol; neu amlder defnyddio BCP;
- cyfran y plant sy'n bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd;
- lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion a phlant;
- dangosyddion ansawdd aer:
- damweiniau traffig a marwolaeth;
- diogelu a gwella'r dirwedd;
- nifer y caniatadau newydd ar gyfer busnesau cludfwyd yn y dosbarth defnydd A3;
- dwysedd unedau cludfwyd A3 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar lefel awdurdodau a wardiau;
- gwerthusiadau sy'n ymwneud â'r defnydd o gyfraniadau a106; ac
- apeliadau llwyddiannus.

12.4. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu yn unol ag amserlenni polisi, newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol neu leol neu o ganlyniad i fonitro'r CCA hwn.

